# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pips Lodge**

**Pips Lodge**
**George Street**
**Aberdaugleddau**
**SA73 2AY**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/07/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Pips Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Silver Springs Support Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Mehefin 2017 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn Gweithio Tuag Ato |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Pips Lodge yn cael gofal gan weithwyr gofal sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau, ac sydd wedi'u cymell i wneud hynny. Nodir canlyniadau personol y bobl drwy broses gynllunio sy'n seiliedig ar yr unigolyn. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo dewis sy'n eu galluogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg yn amlinellu strategaethau i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae trefniadau recriwtio cadarn yn sicrhau bod gan weithwyr gofal y sgiliau a'r galluoedd iawn i weithio gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Caiff y gweithwyr gofal eu hyfforddi a'u datblygu'n barhaus sy'n eu galluogi i ddarparu gofal o ansawdd da ac adnabod arwyddion o gamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a chânt eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd. Mae'r trefniadau llywodraethu ac ansawdd yn dda, ac maent yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn cadw llygad ar y gwasanaeth. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal.

## Llesiant

Caiff y bobl sy'n byw yn Pips Lodge eu cefnogi mewn amgylchedd diogel a chartrefol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae awyrgylch y cartref yn un cadarnhaol a hamddenol braf sy'n rhoi pwyslais ar deimlo fel rhan o gymuned a pherthyn. Mae ystafelloedd gwely ac ardaloedd cymunedol y bobl yn olau ac yn ddymunol, a chânt eu cynnal a'u cadw i safon dda. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi treulio amser yn y cartref a'u bod yn cael dewis o ran lliwiau, addurn a chynllun eu hystafelloedd. Gall y bobl ddefnyddio gardd gefn gaeedig ddiogel sy'n llawn blodau a llysiau; ceir ardal eistedd dawel yno hefyd. Codwyd ystafell ardd fawr yng nghefn yr ardd a all gael ei defnyddio gan y bobl i eistedd yn dawel, gwneud gweithgareddau crefft neu gael cyfarfodydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wrth eu bodd yn yr ardd ac yn ei defnyddio'n aml. Mae'r amgylchedd y mae'r bobl yn byw ynddo yn gwella eu llesiant.

Mae'r gwasanaeth yn hybu iechyd a llesiant y bobl ac mae mesurau diogelu priodol ar waith. Yn y ddogfennaeth cynllunio gofal gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol y bobl. Gwelsom fod atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol o'r fath yn cael eu gwneud yn brydlon a bod cydberthnasau da â gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnal. Roedd y cynlluniau personol yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i wella eu hiechyd a'u llesiant. Mae hyn yn cynnwys meysydd megis gofal personol, deiet a maeth, gweithgareddau a bod yn rhan o'r gymuned ehangach. Dengys y cynlluniau personol fod annibyniaeth y bobl yn cael ei hyrwyddo ac anogir y bobl i wneud pethau drostynt eu hunain os gallant.

Roedd risgiau yn cael eu nodi fel rhan o'r broses asesu gychwynnol, ac yna yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n barhaus. Caiff yr asesiadau hyn eu hadolygu ar y cyd â'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol priodol. Mae'r polisïau a’r gweithdrefnau diogelu yn gyson â deddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a'r broses ddiogelu. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am y broses ddiogelu a chânt gryn gefnogaeth gan eu rheolwyr i sicrhau bod y fath weithdrefnau yn cael eu dilyn. Mae'r bobl mor iach a heini ag y gallant fod a chaiff y risgiau i'w hiechyd a'u llesiant eu lleihau cymaint â phosibl.

## Gofal a Chymorth

Caiff ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth eu hystyried cyn cynnig lle i rywun yn y gwasanaeth. Diben gwneud hyn yw sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion unigol y bobl a'u helpu i gyflawni eu nodau personol. Cynhelir asesiadau cychwynnol sy'n ystyried amrywiaeth o safbwyntiau gan y bobl sy'n gyfrifol am ofal a chymorth yr unigolion, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd, perthnasau a'r sawl sy'n symud i mewn i'r cartref. Dywedodd y rheolwr a'r gweithwyr gofal wrthym eu bod yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cyd-dynnu, a lle bo modd fod pobl yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth fesul tipyn, ac yn cael eu cefnogi a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n dda.

Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac mae cynlluniau rheoli risg cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod unrhyw risgiau i'r bobl neu'r staff yn cael eu lleihau cymaint â phosibl. Cawsom wybod bod y bobl yn lleisio barn am gynnwys eu cynlluniau personol yn rheolaidd a bod yr hyn y maent yn ei ddymuno ac am ei gyflawni yn cael ei ystyried. Ategwyd hyn gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Gwelsom fod dogfennaeth cynlluniau personol yn cael ei hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a bod y bobl yn cyfrannu at eu cynlluniau. Mae hyn yn sicrhau na chaiff y bobl, lle bo modd, eu hatal rhag gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau a bod risgiau yn cael eu hystyried. Caiff yr holl ddogfennaeth o ran cynlluniau personol ei hadolygu'n rheolaidd neu pan nodir newidiadau. Roedd proffiliau llawn gwybodaeth o'r bobl mewn ffeiliau gofal yn darparu trosolwg defnyddiol o'r unigolyn, gan gynnwys ei hoff bethau a'i gas bethau. Yn ystod ein sgyrsiau, dangosodd y gweithwyr gofal eu bod yn adnabod y bobl sy'n byw yn y cartref yn dda dros ben.

Mae gan y gwasanaeth ddulliau priodol ar waith i ddiogelu'r bobl. Gwelsom fod dogfennaeth rheoli risg ar waith. Mae polisi/gweithdrefn diogelu fanwl ar gael i'r staff. Mae'r holl weithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu fel rhan o'u cyfnod sefydlu cychwynnol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau diogelu yn glir ac roeddent yn gallu trafod yr hyn y byddent yn ei wneud petaent yn amau bod achosion o gam-drin. Dywedodd y perthnasau wrthym na fyddent yn meddwl ddwywaith am roi gwybod am unrhyw faterion neu bryderon a allai fod ganddynt i'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr neu weithiwr gofal.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Roedd yr holl weithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd iawn â'r bobl, eu hanghenion a'r hyn oedd yn well ganddynt. Felly, gallant ymateb i unrhyw newidiadau yn gyflym ac yn briodol, gan sicrhau bod y bobl yn cael gofal prydlon a phriodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod y bobl yn gallu lleisio barn wrth addurno eu hystafelloedd gwely, a chaiff pob ystafell wely ei phersonoli at ddant y sawl sy'n ei defnyddio. Mae'r bobl hefyd yn cael dweud eu dweud o ran décor a dodrefn ystafelloedd cymunedol - nododd un preswylydd nad oedd yn hoffi lliw'r ardal fwyta a dewisodd liw arall. Dywedodd y bobl wrthym, neu gwnaethant ddangos, eu bod yn mwynhau byw yn y cartref. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno'n dda ac maent yn fawr, gan ddarparu digon o le i gadw'r cyfarpar sydd ei angen yn ddiogel.

Mae'r cartref mewn cyflwr da, yn olau ac mae'n cael digon o awyr, gan greu amgylchedd cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yno. Mae yno awyrgylch hamddenol braf ac roedd y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cymysgu â'i gilydd drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom gryn dipyn o hwyl a sbri rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal yn ystod yr arolygiad. Mae cryn dipyn o le cymunedol ar gael i'r bobl sy'n eu galluogi i gymdeithasu â'i gilydd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.  Mae'r ardd daclus yn cynnig lle i'r bobl ei fwynhau. Caiff y bobl eu hannog i ofalu am y blodau a'r llysiau yno os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Caiff y llysiau a dyfir eu defnyddio ym mhrydau bwyd y cartref. Gall y bobl hefyd eistedd yn dawel yn yr ardd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Codwyd ystafell ardd yng nghefn yr ardd a all gael ei defnyddio ar gyfer celf a chrefft, cyfarfodydd neu i'r bobl dreulio amser gyda'i gilydd neu ar eu pen eu hunain.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a chartrefol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r risgiau amgylcheddol i'r bobl wedi'u nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Ceir rhaglen o waith cynnal a chadw a diogelwch. Gwelsom gofnodion yn dangos bod y cyfarpar wedi cael ei brofi a'i wasanaethu. Mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith. Roedd y cofnodion yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a diogelwch tân. Gall y bobl sy'n byw yn y cartref fod yn hyderus bod prosesau ar waith i'w diogelu rhag risg.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau clir ar waith i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth sydd o fudd i'r bobl. Mae unigolyn cyfrifol a rheolwr y gwasanaeth yn brofiadol ac yn bresennol yn y cartref. Roedd yr holl weithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn llawn cymhelliant i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Rhoddwyd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ystod yr arolygiad yn ddi-oed. Gwnaethom siarad â nifer o weithwyr gofal a oedd yn llawn canmoliaeth am y gefnogaeth roedd y tîm rheoli yn ei rhoi iddynt. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael amser i ddarllen cynlluniau gofal, ac i eistedd a siarad â'r bobl. Gwelwyd pobl yn eistedd ac yn sgwrsio â'r staff yn ystod yr arolygiad, gan gyflawni gweithgareddau â nhw hefyd, ac roeddent yn ymddangos yn gyfforddus iawn yng nghwmni ei gilydd.

Roedd strategaeth reoli glir ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cadw llygad barcud ar y gwasanaeth ac yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, ac fel rhan o'i ddyletswyddau ansawdd y gofal. Mae hyn yn cynnwys siarad â'r staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael cryn dipyn o gefnogaeth i gyflawni ei rôl. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cefnogi'r staff gofal i gyflawni eu rolau. Cânt eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â newidiadau i ymarfer a deddfwriaeth. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cael ei reoli'n dda a lle mae'r tîm rheoli yn cynnal ethos a diwylliant cadarnhaol lle mae'r bobl a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae niferoedd digonol o staff gofal sydd â'r cymwysterau, y profiad, y cymhwysedd a'r sgiliau perthnasol yn gweithio yn y gwasanaeth. Gwnaethom siarad ag aelodau mwy newydd o'r staff a ddywedodd eu bod wedi cael cryn gefnogaeth gan y rheolwyr drwy gydol eu cyfnod sefydlu. Edrychwyd ar brosesau recriwtio pedwar aelod o'r staff a chadarnhawyd bod yr holl ofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni. Roedd pob aelod newydd o'r staff yn dilyn rhaglen sefydlu. Gwelsom rotas staff a ddangosodd fod lefelau staffio da yn cael eu cynnal. Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod o'r farn bod lefelau staffio, ar y cyfan, yn briodol ar gyfer y bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu achub ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu da. Cadarnhawyd hyn gan y cofnodion hyfforddi a welsom.

Roedd y staff yn cael lefelau da o gefnogaeth gan y rheolwyr ac roedd y dulliau cyfathrebu'n effeithiol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod hyn wedi bod yn hynod arwyddocaol yn ystod pandemig COVID-19, pan gafodd cymorth cyfoedion ei ganmol yn fawr hefyd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ynghyd ag arfarniad blynyddol. Cadarnhawyd hyn gan y cofnodion goruchwylio ac arfarnu a welsom. Roedd y staff gofal yn gadarnhaol wrth sôn am gefnogaeth y rheolwyr a'r dulliau cyfathrebu – dywedodd un *"I feel kept in the loop. We are told the reasons for any changes that happen"* (Rwy'n teimlo fy mod i'n cael y wybodaeth ddiweddaraf. Cawn wybod y rhesymau dros unrhyw newidiadau sy'n digwydd.)

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
|---|

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/10/2021